

Rhif: WG38544



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Codau Ymarfer ar gyfer Lles Da Byw:

leir Dodwy

leir Bwyta ac leir Bridio

## Cyflwyniad

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"), os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am un, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i gymryd camau rhesymol i sicrhau bod ei anghenion lles yn cael eu diwallu. Mae'r Codau Ymarfer yn esbonio'r hyn mae angen i chi ei wneud er mwyn cyrraedd safon y gofal sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Roedd y Codau Ymarfer presennol yn adlewyrchu'r wyddoniaeth a'r ddeddfwriaeth a oedd mewn grym ar yr adeg honno a chafodd ei lunio o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Roedd angen adolygiad i fynd i'r afael ag unrhyw newidiadau yn y meysydd hyn ac i sicrhau bod y safonau a gynghorir yn parhau i fod yn briodol.

Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyda Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i adolygu a diweddarau'r Cod i ymgynghori arno. Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Rhwydwaith am ei amser a'i argymhellion arbenigol.

## Yr Ymgynghoriad

Nod yr ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos oedd rhoi cyfle i asiantaethau gorfodi, grwpiau buddiannau arbenigol a'r cyhoedd ystyried y diweddariad o'r Codau Ymarfer ar gyfer Lles leir Dodwy a Lles leir Bwyta a Bridio, a gwneud sylwadau arnynt.

### Gofynnwyd un cwestiwn:

"Mae'r ymgynghoriad hwn yn holi'ch barn ar arddull, cynllun a chynnwys y codau a'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad y maen nhw'n eu cynnwys. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn derbyn sylwadau gennych ynghylch yr adran ar adnabod a'r cyngor ynghylch microsglodynnu. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi cymaint â phosib o wybodaeth a thystiolaeth i gefnogi'ch barn. Bydd hyn yn helpu inni sicrhau bod y codau'n fwy cywir ac o ansawdd gwell. Mae croeso ichi gynnig sylwadau ar unrhyw ran o'r codau.

Cafwyd 6 ymateb i'r ymgynghoriad. Darperir rhestr o ymatebwyr, sy'n cynnwys sefydliadau ac unigolion, yn Atodiad 1. Darperir isod enghreifftiau o'r diwygiadau a'r ychwanegiadau at y Cod a argymhellwyd gan ymatebwyr, yn ôl yr adran y maent yn berthnasol iddi, ond dylid pwysleisio na fydd popeth yn cael ei dderbyn yn y fersiwn derfynol:

## leir Dodwy

Mae'r term 'ieir dodwy' yn eithrio cywion, cywennod a cheiliogod, er bod y rhain yn rhan o gynhyrchu wyau ac y dylid eu cynnwys yn y codau cynghori. A ddylid cyfeirio at hynny yma? Neu a ellid rhestru categori arall o adar? Mae hyn yn broblem gyson. Mewn rhannau eraill o'r ddogfen, cyfeirir atynt fel dofednod. **(CIWF)**

## Crefft Ffermio Da Byw a Staffio

12. Magu leir.

"Mae gan y RSPCA safonau ar gyfer cywennod a fyddai o bosibl yn ychwanegu gwybodaeth ddefnyddiol ar y pwynt yma.

<https://science.rspca.org.uk/sciencegroup/farmanimals/standards/pullets>

Mae'r blaenoriaethau allweddol yn cynnwys mesurau sy'n paratoi cywennod ar gyfer yr amgylchedd dodwy o oedran cynnar gan gynnwys mynediad at wasarn, clwydi s phlatfformau uwch, sydd mor debyg â phosibl i'r amodau pan fyddant yn dodwy.

Mae gwybodaeth ddefnyddiol hefyd yng nghanllaw FeatherWel ar wella'r gorchudd plu: e.e. sicrhau bod y cywennod yn arfer gyda lefelau isel o darfu mynediad a sŵn, cynnal o leiaf 3 archwiliad y dydd, sicrhau protein a ffibr digonol yn y diet". **(CIWF)**

13. Dylech roi profiad, lle medrwch, i ieir dodwy, wrth eu magu, o arferion rheoli (e.e. goleuni naturiol, clwydi, gwasarn, eitemau cyfoethogi) er mwyn iddyn nhw allu addasu i'r systemau hwsmonaeth y byddan nhw'n eu profi pan fyddan nhw'n hŷn. Gall magwyr a chynhyrchwyr drafod â'i gilydd i wneud yn siŵr bod yr amodau wrth fagu'r ieir mor debyg â phosibl i'r amodau pan fyddant yn dodwy.

Dylid dileu goleuni naturiol gan nad yw'n gymwys i bob system ac ar bob pwynt yn y gadwyn **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain )**

18. Dylech drin ieir clwyfedig, sâl/tost neu sy'n dioddef strès ar unwaith ac os oes angen, cymerwch nhw o'r haid a'u cadw mewn lle addas i'r pwrpas neu eu lladd yn unol â Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014. Dylech gael gwared ar ieir marw yn syth.

Dylech gael gwared ar ieir marw yn syth – "mewn modd addas a/neu waredu" **(RSPCA)**

### **Bwydo a Dyfrio**

21. Rhaid bod bwyd a dŵr ar gael yn rhwydd i bob iâr.

"Ar ôl ystyried, credaf y gallai fod yn bwysig cynnwys y gwaith blaenrol o ran mynediad gan ieir eilaidd a'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd bwydo/yfed. Mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio'n benodol at leihau cystadleuaeth ar gyfer bwyd a dŵr - dylai'r canllawiau dynnu sylw'r ceidwaid at y posibilrwydd o eithrio adar." **(RSPCA)**

25. Rhaid gwrthod systemau sy'n gofyn am beidio â rhoi bwyd na dŵr i adar ar unrhyw ddiwrnod. Peidiwch byth â rhwystro ieir rhag cael bwyd a dŵr er mwyn eu cael i fwrw eu plu. Er hynny, cewch eu cadw heb fwyd ond nid heb ddŵr am hyd at 12 awr cyn eu lladd. Rhaid i'r cyfnod hwn o 12 awr gynnwys yr amser a gymerir i ddal yr adar, eu llwytho, eu cludo, eu crynhoi a'u dadlwytho cyn eu lladd.

"Mae angen egluro'r paragraff yma ymhellach" **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain )**

### **Rhyddid i Symud**

31. Os daw'n amlwg wrth edrych ar yr ieir bod yna glefyd neu broblem ymddygiad, dylech ofyn cyngor arbenigwr a delio â'r broblem ar unwaith. Dylid edrych ar y cyfraddau stocio ac awyru ac ystyried eu newid er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y gwnaiff y broblem godi eto.

"Ni ddylid trosglwyddo dyletswyddau i orsafoedd pacio" **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain)**

## Cytiau 1 – Cyffredinol

35. Mewn cwt ar gyfer ieir dodwy, dylech ofalu nad yw dyluniad na deunydd y lloriau, clwydi a phlatfformau yn achosi anghysur, gofid nac anaf i'r ieir. Rhaid iddyn nhw gynnig digon o gynhaliaeth, yn arbennig i'r craffangau sy'n wynebu ymlaen ar bob troed; hefyd, dylai'r clwydi fod yn ddigon hir i bob aderyn allu clwydo ar yr un pryd. Dylai lloriau, clwydi a phlatfformau gael eu cadw'n ddigon sych a glân.

“Cynnwys llinell sy'n datgan y gellir ystyried yr ardaloedd llechog fel gofod clwydo” **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain )**

## Cytiau 2 – Systemau heb Gewyll

Mae'r adran hon yn nodi y dylech gyfeirio hefyd at y Safonau Marchnata Wyau mewn perthynas ag wyau maes/buarth, wyau sgubor ac wyau organig.

“Nid yw'r rhain yn cael eu cwmpasu gan Reoliadau Marchnata Wyau ond gan ddeddfwriaeth ar wahân: Rheoliad (CE) Rhif 092/91. **(RSPCA)**

“Nid yw wyau organig yn cael eu cwmpasu gan reoliadau marchnata wyau'r UE. A fydd y cod hwn yn cynnwys wyau organig? **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain )**

38. Gall y lle y gellir ei ddefnyddio gynnwys llawr yr adeilad os yw'r ieir yn gallu mynd ato ac unrhyw fannau uwch neu blatfformau sy'n 30cm o led o leiaf, gan gynnwys lloriau â thyllau ynddynt cyn belled â bod trefniadau i atal baw rhag syrthio ar ieir islaw. “A yw'r blychau nesaf yn cael eu mesur?” **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain)**

## Amgylchedd

### Awyru, Tymheredd

51. Dylai'r system awyru, a'r cyfleusterau ar gyfer storio a thrafod sarn a thail gael eu dylunio, eu cynnal a'u rheoli fel na ddaw'r ieir i gysylltiad â nwyon fel amonia, carbon deuocsid a chrynodiaid digon cryf fel eu bod yn achosi anesmwythyd i'r ieir neu sy'n ddrwg i'w hiechyd.

O safbwynt cyfeirio at amonia a charbon deuocsid, a yw o ddefnydd i awgrymu canllawiau yma? <25rhan y filiwn amonia <3000 rhan y filiwn CO<sub>2</sub>” **(RSPCA)**

### Golau

52. O dan amodau arferol, ym mhob system, dylid sicrhau lefel o olau o o leiaf 5 lux ac os medrir, dim llai na 10 lux, o'i fesur wrth unrhyw gafn bwydo; mewn systemau heb gewyll, dylai lefel y golau yn y manau clwydo, cerdded a bwydo fod yn 10 lux o leiaf, o'i fesur ar lefel llygaid yr adar. Er hynny, gall gostwng y golau helpu i ymdrin ag arferion drwg megis pigo plu neu ganibaliaeth.

“Mae safonau lles y RSPCA yn gosod lleiafswm o 20 lux mewn ardaloedd gweithgaredd (sarn/cafnau bwydo) er mwyn gallu gostwng lefelau goleuni os yw'r ieir yn dechrau pigo plu

ei gilydd, ond heb gyrraedd lefelau mor isel fel eu bod yn peryglu lles (h.y. <10 lux)”.  
**(RSPCA)**

“Mae'r paragraff yn fras iawn a gellid ei gamddehongli fel nad yw'r dull yn cael ei gamddefnyddio” **(Cyngor Diwydiant Wyau Prydain )**

### **Gwasarn**

55. Mewn systemau heb gewyll, rhaid i bob aderyn allu mynd at fan sydd o dan sarn. Rhaid cadw'r sarn mewn cyflwr hyfriu (yn chwalu'n rhwydd) ac yn ddigon dwfn (rhyw 10cm) i'r ieir allu chwalu llwch drostynt eu hunain. Er mwyn cadw'r sarn mewn cyflwr da, gallwch greu'r dyfnder hwn dros ddau fis cyntaf ei ddefnyddio. Dylai fod gan ieir lawr o ansawdd da o dan eu traed er mwyn iddyn nhw allu ymddwyn yn naturiol, gan gynnwys chwalu llwch drostynt eu hunain ac i osgoi problemau iechyd, yn enwedig namau ar y traed, coesau a'r frest.

Awgrymu newid y frawddeg olaf i “Dylai fod gan ieir lawr o ansawdd da o dan eu traed er mwyn iddyn nhw allu ymddwyn yn naturiol, gan gynnwys chwalu llwch drostynt eu hunain a chrafu, ac i osgoi problemau iechyd a lles” oherwydd bod hyn yn fwy o broblem mewn ieir bwyta nag ieir dodwy. **(RSPCA)**

### **Ieir mewn rhedfeydd agored**

61. Dylai ieir dodwy gael eu hannog i ddefnyddio'r manau awyr agored trwy ddarparu llystyfiant addas sydd wedi'i reoli'n dda, manau craffu a manau dan do, i gyd yn ddigon pell o'r cwt i'w hannog i grwydro.

“dylid dosbarthu cysgodfeydd/cysgod naturiol yn eang, yn cynnwys rhai'n agos at y cwt i annog ieir i ddod allan trwy'r tyllau; a rhai'n bell i ffwrdd er mwyn annog ieir i grwydro'r parth yn llawn” **(RSPCA)**

“er mwyn denu'r ieir i grwydro, dylent allu gweld y parth crwydro a'r manau cysgodi (coed ac ati) o'r tyllau yn y cytiau” **(CIWF)**

### **Dal Adar a'u Cludo**

Roedd Cyngor Diwydiant Wyau Prydain i fod i gyhoeddi canllaw lles ar y cyd ar gyfer y diwydiant ynghylch trin a chludo ieir sydd wedi gorffen dodwy **(BEIC)**

76. Ym mhob system, dylech godi ieir dodwy'n syth i'r modiwl cludo.

“yr arfer gorau fyddai cario ieir â'u pennau i fyny, wedi'u cynnal dan eu cyrff. Byddai hyn yn ymarferol ar gyfer unedau llai. Dylid ychwanegu brawddeg i'r perwyl hwn” **(BEIC)**

## **Ieir Bwyta ac Ieir Bridio**

### **Diffiniadau**

8. Mae'r ddeddfwriaeth berthnasol ar les anifeiliaid yn gymwys i berchenogion yn ogystal ag i unrhyw berson sy'n gofalu am yr adar ar eu rhan, ble bynnag y mae'r adar yn cael eu cadw. Gallai protocol ysgrifenedig fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pob parti yn glir ynghylch ei gyfrifoldebau am les yr ieir. Er hynny, bydd yn dal gofyn cadw at y rhwymedigaethau cyfreithiol.

Ble'r oedd y paragraff yn cyfeirio at 'contract', awgrymwyd newid hynny i "protocol, gan ei fod yn fwy addas yn y cyd-destun hwn" **(Cyngor Dofednod Prydain)**

9. Dylech roi sylw i ystyriaethau iechyd a lles yn ogystal â chynhyrchiant wrth ddewis y straen o iâr at ddiben neu system gynhyrchu benodol. Dylai'ch ieir bwyta darddu o raglenni bridio eang sy'n cydbwyso iechyd, lles a chynhyrchiant. Dylid sicrhau bod pob penderfyniad rheoli a system gynhyrchu yn hyrwyddo iechyd, lles a chynhyrchiant ieir bwyta.

"Os nad yw'n cael ei dyfynnu yn rhywle arall, efallai y dylid cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r mater yma, h.y. WFAR, Atodlen 1, paragraff 29. Ni chaniateir cadw unrhyw anifeiliaid at ddibenion ffermio oni ellir disgwyl yn rhesymol, ar sail eu genoteip neu eu ffenoteip, y gellir eu cadw heb effaith niweidiol i'w hiechyd neu eu lles." **(RSPCA)**

### **Bwydo a Dyfrio**

24. Ni ddylai ieir bwyta gael bod heb fwyd am fwy na 12 awr cyn eu lladd neu cyn eu symud i fferm newydd. Rhaid i'r cyfnod hwn o 12 awr gynnwys yr amser a gymerir i ddal yr adar, eu llwytho, eu cludo, eu crynhoi a'u dadlwytho cyn eu lladd.

"Yn flaenorol, roedd y darn yma'n cynnwys y frawddeg: Cyn eu cludo, dylai dŵr fod ar gael iddyn nhw hyd at ddechrau'r broses o'u llwytho. Byddai'n fuddiol i gadw'r frawddeg honno yn rhywle yn yr adran hon." **(RSPCA)**

### **Rheoli Clefydau a Bioggiogelwch**

43. Dylid carthu sarn brwnt/budr ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol o'r cwt a'r safle cyn ailstocio'r cwt rhag i unrhyw haint oroesi a heintio'r haid nesaf.

Mae'r paragraff yma wedi'i ddileu o baragraff 44 a'i osod yma i osgoi ailadrodd.  
**(Gwasanaethau Milfeddygol Slate Hall)**

### **Iechyd y Goes**

46. Mae cloffni ac anhwylderau ar y coesau yn achos allweddol o les gwael mewn ieir bwyta. Mewn ieir bwyta safonol a fegir hyd at 6 wythnos oed, mae hyn wedi'i gysylltu gydag opsiynau twf cyflym, a gall fod yn llai o broblem mewn adar sy'n tyfu'n arafach.

“Mae’n well cadw’r geiriad blaenorol: yn broblem ddifrifol i les ieir bwyta. Gall lles gwael ddigwydd oherwydd am amrywiaeth eang o resymau, ond pan mae cloffni ac anhwylderau’r coesau yn digwydd, maen nhw yn arwain at les gwael” **(RSPCA)**

51. Gall rhai arferion rheoli ffrwyno neu leihau lefelau cloffni mewn haid, a dylid eu derbyn mewn perthynas â phrofiad blaenorol ar fferm ac arfer gorau cydnabyddedig. Un ffordd o leihau cloffni yw trwy gynyddu gweithgarwch yr ieir bwydo yn y dydd a’u hannog i orffwyso yn y nos, er enghraifft trwy reoli patrymau goleuo (cynyddu’r golau yn y dydd a chyfnodau di-dor hirach o dywyllwch). Gellir cynyddu gweithgarwch hefyd trwy gyfoethogi’r amgylchedd a thrwy leihau’r dwysedd stocio.

“A ddylai’r paragraff yma fod yn y ddogfen? Mae’n wir y gall cynyddu gweithgarwch yr adar leihau cloffni, ond gall gormod o weithgarwch gynyddu cloffni oherwydd crafu cefn. Rwy’n credu fod hyn yn cael ei gwmpasu gan baragraffau blaenorol sy’n nodi y dylid adolygu arferion rheoli os yw cloffni’n digwydd.” **(Gwasanaethau Milfeddygol Slate Hall)**

### **Tocio Pigau**

56. Ni ddylai bod angen tocio pigau ieir bwyta gan fod yr ieir fel arfer yn cael eu lladd cyn iddynt ddod yn rhywiol aeddfed. Dylid ystyried cyfoethogi’r amgylchedd cyn ystyried bod angen tocio pigau. Dylid asesu risg dulliau posib o gyfoethogi’r amgylchedd yn wyneb cyflwyno pathogenau a chynnwys darparu byrnau gwellt neu lysiau brassica a gwasgaru grawn cyflawn. Dylid ymchwilio i unrhyw ddiffygion maeth fel achos posib i bigo sy’n achosi niwed.

“Mae hyn yn gyngor da. Fodd bynnag, mae cyfoethogi’r amgylchedd yn haeddu adran benodol, ac rwyf wedi ychwanegu honno’n ddiweddarach o dan Cytiau. Os yw’n cael ei hychwanegu yno, mae’n bosib y bydd angen ei symleiddio er mwyn osgoi ailadrodd (er y dylid ei grybwyll yma, er bod pigo tadol yn llai cyffredin ymhlith ieir bwyta).” **(CIWF)**

### **Awyru a Tymheredd**

62. Mae adar sydd ar borthiant cyfyngedig yn fwy sensitif i oerfel ond yn llai sensitif i wres. Os bydd y tymheredd yn gostwng, efallai y bydd angen rhoi mwy o fwyd neu ddarparu gwres.

Awgrymwyd fod y paragraff yma’n fwy addas ar gyfer bridwyr ac y byddai’n well ei osod yn yr adran honno? **(RSPCA)**

### **Dwysedd Stocio a Rhyddid i Symud**

76. Dylid penderfynu ar y dwysedd stocio ar sail y cwt a ddefnyddir a dylid ystyried y ffactorau sy’n benodol i’r cwt hwnnw. Mae nifer o ffactorau rheoli a ddylai ddylanwadu ar benderfyniad y ceidwad wrth ddewis dwysedd stocio penodol. Yn eu plith y mae iechyd a lles heidiau blaenorol, adroddiadau’r lladd-dy, a chyfyngiadau’r mesurau rheoli amgylcheddol yn y cwt, all amrywio yn ôl y tymor a’r tywydd. Er mwyn cadw mwy na 33kg/m<sup>2</sup> o ieir bwyta a fegir yn gonfensiynol, rhaid cadw at y ffactorau ychwanegol a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Byddai’r **(RSPCA)** yn annog cadw’r geiriad blaenorol: ‘Gall dwyseddau stocio uwch fod yn gysylltiedig â symudiad a cherddediad gwael’. Mae digon o dystiolaeth i ddangos hyn ac mae’r adran hon yn ymwneud â dwyseddau stocio felly mae’n ymddangos yn briodol ei gynnwys yma (gan dderbyn bod ffactorau eraill yn achosi symudiad a cherddediad gwael –

a gellid cyfeirio atynt mewn adrannau eraill). Hefyd, mae'r cymal 'Gall... ..fod' yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na 'Mae', sydd eto'n cydnabod bod achosion eraill.

78. Os bydd problemau'n codi, dylid holi am farn arbenigol ac efallai y bydd angen adolygu dwysedd stoc. Os yw teneuo'r haid (diboblogi rhannol) yn digwydd, dylech ofalu'ch bod yn cynnal bioddiogelwch a'ch bod yn aflonyddu cyn lleied ag y medrwch ar yr adar sydd heb gael bwyd na diod am gyfnod. Dylech ysgrifennu protocol i nodi'r hyn y dylech ei wneud rhag effeithio ar yr adar a pheryglu'r bioddiogelwch, gan gynnwys y risg o ddod â milhaint i'r haid, a'r trefniadau i leihau effaith peidio â bwydo a dyfrio'r adar.

"Byddem (**RSPCA**) yn croesawu cadw'r geiriad awgrymedig blaenorol i gyd-fynd â'r paragraff yma: "Mae teneuo'r haid yn achosi strès i'r adar a dylech ei osgoi." A'r paragraff blaenorol: "Dylid osgoi gosod nifer uchel o gywion yn fwriadol a "theneuo" neu ddisbyddu rheolaidd, gan fod hyn yn achosi gofid diangen i'r adar a gall arwain at ddwysedd stocio sy'n rhy uchel. Yn ogystal, mae'r arfer hwn yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â rheoli sarn yn wael, cyflyrau cysylltiedig fel pododermatitis a lefelau cynyddol o gloffni." Awgrymwyd gan (**Cyngor Dofednod Prydain**) bod angen rhai paragraffau yn yr adran hon yn ymwneud â chynlluniau wrth gefn.

### **Cyfoethogi'r Amgylchedd**

Cyfeirir at rannau helaeth o'r adran hon mewn adrannau eraill o'r cod ymarfer, ond awgrymwyd fod angen adran benodol ar gyfer y pwnc. Ychwanegwyd y canlynol fel awgrym (**CIWF**):

Mae cyfoethogi'r amgylchedd, er enghraifft trwy ddarparu clwydi, ffenestri i gyflwyno goleuni naturiol, byrnau caeedig o naddion a gwellt o ansawdd da, grawn cyfan bioddiogel neu bethau eraill i annog yr ieir i grafu a phigo'r llawr, yn gallu annog gweithgarwch yn cynnwys crafu a phigo arferol. Mae hyn yn llesol i iechyd coesau a gall helpu i atal neu leddfu pigo dolurus ac ymosodol yn ystod y cyfnod magu sy'n effeithio'n ddrwg ar eu lles. Mewn systemau maes/buarth, mae mynediad i'r awyr agored hefyd yn werthfawr o ran cyfoethogi.

### **Argymhellion ychwanegol ar gyfer bridio a stoc y genhedlaeth cyn y ddiwethaf**

"Mae'r rhan fwyaf o'r adran hon yn ymwneud â rheoli bwydo, sef y dull a hyrwyddir yn bennaf fel y ffordd orau o fynd i'r afael â'r mater. Efallai y gellid rhoi mwy o bwyslais ar atebion mwy hir dymor, sy'n gallu cael eu cyflawni trwy fridio yn unig." (**RSPCA**)

93. Rhaid monitro a rheoli ansawdd y bwyd a roddir i ieir bridio, yn enwedig o safbwynt microfaethynnau a phrotein.

Awgrymu dileu'r frawddeg olaf oherwydd bod pob agwedd ar faeth yn bwysig, nid dim ond microfaethynnau a phrotein (**Gwasanaethau Milfeddygol Slate Hall**)

### **Ymosodedd, pigo niweidiol a chyfoethogi'r amgylchedd**

Mae'r (**RSPCA**) yn cefnogi cynnwys y testun hwn yn yr adran hon. Fodd bynnag, byddai hefyd yn fanteisiol cynnwys testun o'r fath ym mhrif adran y cod, nid yn unig mewn perthynas â stoc y genhedlaeth ddiwethaf a'r un flaenorol.



## **Camau Nesaf**

Caiff sylwadau a diwygiadau a awgrymwyd, lle y bo'n briodol, eu hymgorffori yn y Cod. Caiff drafft terfynol o'r Cod ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am 40 diwrnod. Ar yr amod na fydd y Cynulliad yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, gall Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gyhoeddi'r Cod ar ddiwedd y cyfnod 40 diwrnod.

**RSPCA**

**Cyngor Dofednod Prydain**

**Cymdeithas Milfeddygon Prydain (BVA)**

**Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)**

**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)**

**Compassion in World Farming (CIWF)**

**Prifysgol Bryste**

**Gwasanaethau Milfeddygol Slate Hall**

**Cyngor Diwydiant Wyau Prydain**

**Animal Aid**

**RSPB**

**Cynhyrchwyr Cig Oen a Chig Eidion Cymru Cyf (WLBP)**